Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Diogelu, Asesu Risg a Gweithdrefnau

Mai 2025

llyw.cymru

# Cynnwys


1 **Diogelu ac Asesu Risg**

Cyflwyniad

Ffactorau Risg Sefydlog a Dynamig

3 **Risg o Niwed Difrifol**

5 **Ffactorau Risg Uchel**

9 **Y Broses a Sut i'w Chymhwyso'n Ymarferol**

Cyfarwyddyd Ymarfer 12J

Ffactorau Cam-drin Domestig i'w Hystyried

11 **Canllawiau i Ymarferwyr: Cefnogi Rhieni yn Dilyn Gwrandawiad Canfod Ffeithiau**

13 **Cwestiynu Myfyriol sy'n Ystyriol o Gam-drin Domestig – Adroddiadau**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-726-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Diogelu ac Asesu Risg

## Cyflwyniad

Mae cam-drin domestig yn bryder diogelu, ac mae diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc yn hollbwysig i'r gwaith rydym yn ei wneud.

Gall ein hargymhellion gefnogi rhieni sy'n amddiffyn sydd hefyd yn wynebu risg, gan eu galluogi i barhau i fod yn ffactorau amddiffynnol ym mywyd eu plentyn neu i ddod yn ffactorau o'r fath.

## Ffactorau Risg Sefydlog a Dynamig

### Beth yw ffactor risg?

- Ffactor risg yw unrhyw nodwedd, cyflwr neu sefyllfa sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd canlyniad negyddol neu ddigwyddiad andwyol yn digwydd.
- Gellir rhannu ffactorau risg yn ddau grŵp:

### 1. Ffactorau Risg Sefydlog

- Y rhai hynny sy'n seiliedig ar hanes a chefndir demograffig yr unigolyn. Mae'r rhain yn llai tebygol o newid.
- Ffactorau sefydlog yw asgwrn cefn unrhyw asesiad risg credadwy.
- Gall fod perygl o wneud y canlynol:
  - Rhoi gormod o bwyslais ar nodweddion arwynebol **(overrating)** – argraffiadau a geir gan ddefnyddiwr y gwasanaeth mewn cyfweliad,
  - Methu â rhoi digon o bwyslais ar wybodaeth flaenorol **(underrating)** – gwybodaeth am hanes ac ymddygiad y person.

**Mae enghreifftiau o ffactorau risg sefydlog yn cynnwys y canlynol (ymhlith eraill):**

Mae gan riant hanes troseddol a allai gynnwys:

- Troseddau rhywiol yn erbyn oedolion neu blant.
- Trais domestig (perthynas bresennol neu berthnasoedd blaenorol).
- Ymosodiadau corfforol neu drais arall.
- Cam-drin/esgeuluso plant.
- Troseddau yn ymwneud â chyffuriau.
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## 2. Ffactorau Risg Dynamig

- Y rhai hynny y mae modd eu newid drwy driniaeth, ymyriadau neu wrth i amser fynd heibio.
- Gall ffactorau risg dynamig ymwneud â phobl sy'n gysylltiedig â'r unigolyn; h.y. gall fod risg y bydd mam-gu/tad-cu ffactor amddiffynnol yn mynd yn sâl.
- Gellir mesur y rhain mewn perthynas â chryfderau ac anghenion:
  - Beth yw cryfderau'r plentyn neu'r teulu?
  - Pa anghenion sydd gan y plentyn neu'r teulu?
- ...os caiff y rhain eu lliniaru/gwella, gallant leihau'r risgiau posibl.
- Gall ffactorau risg dynamig droi'n ffactorau risg sefydlog.

**Mae enghreifftiau o ffactorau risg dynamig yn cynnwys y canlynol (ymhlith eraill):**

- Trallod emosiynol neu feddyliol.
- Problemau camddefnyddio sylweddau.
- Problemau ariannol.
- Problemau tai.
- Problemau mewnfudo.
- Lefel uchel o straen.
- Y gallu i gael gafael ar gymorth cymunedol/cymdeithasol.
- Y gallu i gael gafael ar wasanaethau neu ymgysylltu â nhw.

# Risg o Niwed Difrifol

Mae rhai ymddygiadau a ffactorau yn gysylltiedig â risgiau uwch o niwed difrifol a rhaid eu nodi mewn unrhyw asesiad risg. Mae'r rhain wedi cael eu nodi mewn ymchwil, megis yr ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer adnodd asesu risg DASH SafeLives.

## Pwyntiau Ymarfer

### Adnodd Asesu risg DASH[1]

Mae Adnodd Asesu Risg DASH yn adnodd a ddefnyddir yn eang yn y DU gyda'r nod o asesu'r risg o niwed i ddioddefwyr cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais ar sail anrhydedd. Mae'n helpu gweithwyr proffesiynol i nodi achosion risg uchel lle mae angen ymyrryd ar unwaith er mwyn diogelu'r dioddefwr-oroeswr/dioddefwyr-oroeswyr.

Mae DASH ar wahân ar gael ar gyfer pobl ifanc rhwng 13 a 17 oed sy'n cael eu cam-drin gan bartner personol.

Nid yw ymarferwyr Cafcass Cymru yn cwblhau ffurflen DASH; o dan fodel Braenaru cyfraith breifat, caiff ei chwblhau gan ymarferwyr gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer cam-drin domestig yn dilyn atgyfeiriad gan un o ymarferwyr Cafcass Cymru. Mae'n bwysig bod yr adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig. Nid rhestr wirio yw DASH ond adnodd asesu cyfannol y dylid ymgymryd ag ef gyda dioddefwyr-oroeswyr o dan yr amgylchiadau cywir, a dylid neilltuo digon o amser i'w ddefnyddio'n effeithiol.

Bydd defnyddio dull gweithredu amlasiantaethol drwy dderbyn tystiolaeth arbenigol gan wasanaethau arbenigol yn helpu i gryfhau ein hasesiadau.

Lle caiff cam-drin domestig ei nodi neu ei ddatgelu, rhaid i'r ymarferydd wneud atgyfeiriad i adnodd DASH gael ei gwblhau gydag asiantaeth bartner. Bydd y DASH yn cynnig gwybodaeth werthfawr am gyd-destun a dynameg cam-drin, gan gynnwys risg o safbwynt arbenigol. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i'r llysoedd wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a gweithredu'n gyflym lle nodir risg.

Bydd y ddau barti yn cael cynnig yr un cyfle i gael eu hatgyfeirio at wasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig y model Braenaru, ac eithrio lle bo'n glir (megis drwy euogfarn neu orchymyn amddiffyn) pwy yw'r cyflawnwr.

Gall y DASH ddarparu cyd-destun o ran y risg y mae plant sy'n byw mewn amgylcheddau camdriniol yn ei hwynebu ond nid yw'n asesiad risg llawn ar gyfer plant. Gan mai llesiant a diogelwch plant a phobl ifanc yw ein prif ffocws, rhaid i ni felly barhau i gynnal ein hasesiadau risg ein hunain yn ogystal â hyn.

1 Dash-risk-checklist-for-ldvas.pdf (safelives.org.uk)

Rydym yn gwybod y gall dioddefwyr-oroeswyr fod yn bryderus ynghylch cydsynio i'r DASH gael ei rannu â'r person arall, ond yn y rhan fwyaf o achosion caiff y wybodaeth a ddarperir yn y DASH ei rhannu â'r llys drwy'r Adroddiad ar yr Effaith ar y Plentyn. Anaml iawn y bydd sefyllfaoedd yn codi lle na chaiff gwybodaeth ei rhannu â'r parti arall. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn digwydd.

Mae'r DASH yng nghyd-destun y model Braenaru yn cael ei gwblhau er mwyn llywio'r risgiau cyffredinol a helpu'r llys i wneud penderfyniadau. Mae'n rhaid i Gyfiawnder Teuluol (gan mwyaf) fod yn dryloyw i'r ddau barti fel y gellir gwneud penderfyniadau yn gyflym mewn perthynas â phlant. Gall hyn fod yn anodd i ddioddefwyr-oroeswyr sydd, yn naturiol, am amddiffyn eu hunain rhag cael eu cam-drin ymhellach.

Rydym yn deall, felly, y gall hyn arwain at achosion pan na fydd pobl yn rhannu eu holl brofiadau â Cafcass Cymru ond, yn bwysig, ni fydd hyn yn eu hatal rhag cael cymorth gan y bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a all helpu i sicrhau bod gwasanaeth priodol ar gael.

Lle bydd risg sylweddol i blentyn, gall Cafcass Cymru ystyried a ddylai'r wybodaeth a rennir gan y gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, gael ei chynnwys fel rhan o adroddiad Asesiad Risg 16a i'r llys ei ystyried yn unig. Ond dylid nodi mai eithriad fydd hyn.

SafeLives – Adnoddau Dash

SafeLives – Adnoddau DASH i Bobl Ifanc

# Ffactorau Risg Uchel

Mae Laura Richards, dadansoddwr ymddygiadol a ddatblygodd adnodd DASH mewn partneriaeth ag elusen SafeLives yn rhestru'r canlynol fel ffactorau risg uchel[2]:

## Canfyddiad y Dioddefwr o Risg o Niwed

Mae dau bwynt i'w hystyried yma:

- Mewn achosion cam-drin domestig, yn enwedig rheolaeth drwy orfodaeth, gall ymddygiadau, gweithredoedd neu ddatganiadau camdriniol gael eu normaleiddio dros amser. Felly os bydd dioddefwr-oroeswr yn dechrau mynegi ofn neu bryder, mae'n awgrymu bod achos o gam-drin a/neu drais wedi gwaethygu neu y gallai waethygu.

- Yr ail bwynt yw y bydd dioddefwyr-oroeswyr yn deall dynameg ac elfennau cynnil y gamdriniaeth a gyfeirir atynt yn well nag unrhyw un; nhw yw'r arbenigwyr o ran eu profiad bywyd, a dylem ystyried bod mynegi ofn neu ddangos lefelau uwch o ofn yn dystiolaeth bod risg uchel o niwed.

  *Weisz, Tolman, a Saunders (2000) Assessing the Risk of Severe Domestic Violence: The Importance of Survivors' Predictions*

  *Campbell, J. C., et al. (2003) Risk Factors for Femicide in Abusive Relationships: Results from a Multisite Case Control Study.*

Understanding risk and vulnerability in the context of domestic abuse (Y Coleg Plismona)

## Gwahanu (Cyswllt â Phlant)

- Mae cysylltiad cryf rhwng gwahanu a lladdiadau gan bartner personol.

- Mewn Adolygiadau Lladdiadau Domestig, gwahanu ac yna berthynas newydd i'r dioddefwr-oroeswr oedd y digwyddiadau 'sbarduno' mwyaf cyffredin.[3] Caiff y sefyllfa ei dwysáu pan fydd trefniadau cyswllt â phlant yn ffactor yn yr achos hefyd.

Nineteen Child Homicides Report – What must change so children are put first in child contact arrangements and the family courts (Women's Aid)

## Beichiogrwydd neu Enedigaeth Newydd

- Mae ymchwil wedi canfod y gall cam-drin domestig ddechrau neu waethygu yn ystod beichiogrwydd yn aml a gall barhau ar ôl yr enedigaeth hefyd.

- Byddai safbwynt pŵer a rheolaeth yn awgrymu nad yw rheolaeth drwy orfodaeth yn dechrau yn ystod beichiogrwydd ond ei bod wedi bod yn bresennol ers dechrau perthynas, ond gall beichiogrwydd fod yn bwynt sbardun sy'n peri i'r ymddygiad hwn waethygu.

- Mae beichiogrwydd yn gyfnod lle gall dynameg perthynas newid; gall fod disgwyl i'r fam fynd i fwy o apwyntiadau meddygol, bydd mwy o gysylltiad â gweithwyr proffesiynol ac efallai y bydd mwy o ddiddordeb gan deulu a ffrindiau, a bydd ffocws ar iechyd a llesiant y babi.

---

2 Problems with focus and risk assessment tools | Women's Views on News (womensviewsonnews.org)

3 Risk factors for intimate partner homicide in England and Wales – Chopra – 2022 – Health & Social Care in the Community – Wiley Online Library

- Mae hyn, yn ei dro, yn bygwth rheolaeth y cyflawnwr. O'r safbwynt hwn, ymgais i gadw pŵer a rheolaeth fydd achosion lle bydd trais yn gwaethygu, a hynny am fod y cyflawnwr yn credu bod ei bŵer a'i reolaeth dan fygythiad.

Domestic violence and pregnancy (BMJ)

Identifying, understanding and responding to domestic abuse in the perinatal period (Cambridge University Press)

## Sefyllfaoedd yn Gwaethygu ac Achosion lle caiff Unigolion eu Fictimeiddio Fwy nag Unwaith

- O gymharu â throseddau eraill, mae dioddefwyr cam-drin domestig yn fwy tebygol o gael eu fictimeiddio fwy nag unwaith. Wrth i drais ailadrodd, bydd yn cael effaith fwy difrifol.
- Myths about domestic abuse (Cymorth i Fenywod)

## Materion Cymunedol/Ynysu

- Bydd anghenion dioddefwyr-oroeswyr yn amrywio yn dibynnu ar bwy ydynt.
- Mae ffactorau hunaniaeth i'w hystyried yn cynnwys:
  - Pobl ethnig leiafrifiedig
  - Pobl hŷn
  - Pobl ag anableddau
  - LHDTC+.
- Mae rhwystrau ychwanegol sy'n atal pobl o grwpiau lleiafrifiedig neu grwpiau sy'n wynebu gwahaniaethu sylweddol rhag cael cymorth.
- Gall cam-drin ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, gynnwys bygythiadau sy'n ymwneud ag alltudio o'r gymuned, bygythiadau i statws mewnfudo, a bygythiadau i dynnu plant o ofal yr unigolyn.
- Gall ynysu fod yn ffactor risg os na fydd pobl yn cael cefnogaeth gan eu cymunedau, neu os bydd gwahaniaethau iaith.
- Efallai y byddant yn credu na fydd gwasanaethau yn deall eu problemau neu'n dangos empathi tuag atynt; mae'n bosibl y bydd y cyflawnwr/cyflawnwyr wedi atgyfnerthu hyn ymhellach fel tacteg ynysu.

## Stelcio

- "Stelcio ac Aflonyddu" yn ddogfen "Diffiniadau".

## Ymosodiadau Rhywiol

- Gweler "Trais Rhywiol" yn nogfen "Modelau Cam-drin Domestig".

## Tagu

- Diwygiwyd y Ddeddf Troseddu Difrifol (2015) gan y Ddeddf Cam-drin Domestig (2021), gan gyflwyno troseddau penodol tagu a mygu heb fod yn farwol.
- Nododd y Ganolfan Cyfiawnder i Fenywod fod tagu yn ffactor cyffredin y rhoddir gwybod amdano gan oroeswyr cam-drin domestig, gan ei ddisgrifio fel a ganlyn:"a measure often used by an abuser to instil fear, power and control...rather than failed homicide attempts".
- Tagu a mygu oedd yr ail ddull mwyaf cyffredin o ladd mewn achosion o ladd menywod.
- Mae hyn yn cynnwys ychwanegiad at y Ddeddf Cam-drin Domestig sy'n egluro na all unigolyn gydsynio i wir niwed corfforol yn ystod gweithgarwch rhywiol, gan leihau'r cyfle i gyflawnwyr ddefnyddio'r term a fathwyd ar lafar, 'amddiffyniad rhyw garw'.

Strangulation and suffocation (GOV.UK)

Consent to serious harm for sexual gratification not a defence (GOV.UK)

## Bygythiadau Credadwy/ Uniongyrchol i Ladd

- Rhaid ymdrin â phob bygythiad i ladd neu niweidio'n gorfforol yn gyflym drwy gysylltu â'r gwasanaethau brys perthnasol.

## Defnyddio Arfau

- Mae defnyddio arfau, bygwth eu defnyddio neu eu casglu wedi cael ei gysylltu â risg ddifrifol o niwed mewn achosion cam-drin domestig.
- Mae hyn yn cynnwys defnyddio neu gasglu arfau diffiniedig, megis cyllyll neu ynau.

## Rheolaeth drwy Orfodaeth a/ neu Ymddygiad Cenfigennus Gormodol

- Gweler yr adran "Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol" uchod.

## Cam-drin Plant

- Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig yn cefnogi'r gred bod cam-drin domestig hefyd yn cynnwys cam-drin plant. Mae plant a phobl ifanc yn ddioddefwyr-oroeswyr p'un a ydynt yn cael eu cam-drin yn uniongyrchol neu'n byw mewn amgylcheddau lle mae cam-drin domestig yn digwydd.

## Cam-drin Anifeiliaid/ Anifeiliaid Anwes

- Gwnaed cysylltiadau cryf rhwng cam-drin anifeiliaid, cam-drin plant a cham-drin domestig.
- Mae anifeiliaid anwes yn rhan hanfodol a phwysig o'r teulu. Bydd llawer o anifeiliaid anwes yn dod yn gydymaith neu'n anifeiliaid cymorth i ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin, a bydd cyflawnwyr yn eu targedu fel rhan o batrwm ehangach o ymddygiadau.

Understanding the Link between Animal Cruelty and Family Violence: The Bioecological Systems Model (National Library of Medicine)

Making the links: child abuse, animal cruelty and domestic violence (Wiley Online Library)

Freedom Project – Dog Fostering Support (Dogs Trust)

## Alcohol/Cyffuriau/Salwch Meddwl

- Gall alcohol, cyffuriau a salwch meddwl oll fod yn ffactorau gwaethygol mewn achosion o gam-drin.
- Mae'n gamdybiaeth gyffredin y caiff cam-drin domestig ei gyflawni o ganlyniad i ddefnyddio sylweddau neu salwch meddwl.
- O dan y model pŵer a rheolaeth, angen y cyflawnwr i reoli neu arfer pŵer yw'r achos sylfaenol.
- Fodd bynnag, gall y tri ffactor hyn wneud ymddygiadau yn waeth oherwydd:
  - Bydd ataliadau yn lleihau.
  - Nodir bod ymddygiad mwy ymosodol yn gysylltiedig â rhai sylweddau.
  - Effeithir ar y gallu i wneud penderfyniadau.

- Bydd canfyddiadau o risg yn newid.
- Dyma lle bydd yr elfen risg uchel yn berthnasol.

Alcohol and domestic abuse (Alcohol Change UK)

Dynamics of Domestic Abuse and Drug and Alcohol Dependency (Oxford Academic)

## Bygwth Hunanladdiad/ Lladd Eraill

- O dan ddamcaniaeth 'Llinell Amser Lladdiadau' Dr Jane Monckton-Smith, os bydd unigolion yn bygwth lladd eu hunain mae'n awgrymu bod eu hymddygiad wedi gwaethygu a gellir defnyddio hyn fel ffordd o gadw rheolaeth. Os na fyddant yn llwyddo i gadw rheolaeth, efallai y bydd eu ffordd o feddwl yn newid a bydd y cyflawnwr yn credu nad oes opsiwn arall heblaw gwireddu'r bygythiad.
- Gwelwyd achosion o laddiad-hunanladdiad mewn achosion cam-drin domestig.[4]
- Mae Adolygiadau Lladdiadau Domestig bellach wedi cael eu hailenwi'n Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o ddioddefwyr-oroeswyr wedi lladd eu hunain o ganlyniad i gamdriniaeth.

Characteristics of homicide-suicide offenders: A systematic review (ScienceDirect)

Scale of homicide and suicides by domestic abuse victims revealed (National Police Chiefs' Council)

Suicide Prevention and Domestic Abuse: A Critical Link That Professionals Must Address (Grassroots Suicide Prevention)

Policing perpetrator suicide threats in family violence cases: competing priorities and contemporary challenges (Taylor and Francis Group)

## Pwyntiau Ymarfer

- Mae'n bwysig cofio nad dim ond ar ffurf gorfforol y gwelir ffactorau risg; mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn cydnabod effaith cam-drin seicolegol ac emosiynol ar lesiant hirdymor pobl.
- Bydd angen i chi hefyd fod yn ymwybodol o effaith ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, a all gael canlyniadau difrifol a pharhaol i blant a'r rhiant nad yw'n cam-drin.
- Gall fod yn llawer anoddach canfod arwyddion ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol o gymharu â cham-drin corfforol, ond credir ei fod yr un mor ddifrifol i ddioddefwyr-oroeswyr.
- I ddarllen mwy, cyfeiriwch at erthygl Emma Katz, Beyond the Physical Incident Model: How children living with domestic violence are harmed by and resist regimes of coercive control. Child Abuse Review Vol.25: 46–59 (2016) (Wiley Online Library)
- Nodwch y ffactorau sefydlog a dynamig yn glir yn yr adroddiad fel tystiolaeth ar gyfer eich argymhellion proffesiynol.

4 Fatal domestic abuse reviews renamed to better recognise suicide cases – GOV.UK

# Y Broses a Sut i'w Chymhwyso'n Ymarferol

## Cyfarwyddyd Ymarfer 12J

Diben y Cyfarwyddyd Ymarfer yw nodi'r hyn y mae angen i'r llys ei wneud mewn unrhyw achos lle caiff cam-drin domestig ei ddatgelu, neu lle bydd rheswm dros gredu bod y plentyn neu barti wedi dioddef cam-drin domestig a gyflawnwyd gan barti arall neu fod risg o gamdriniaeth o'r fath. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn berthnasol i geisiadau am Orchmynion Trefniadau Plentyn, h.y. Ceisiadau Cyfraith Breifat.

Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12J (PD12J) yn cynnwys sawl elfen allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Cyfeirir at 'gam-drin domestig' yn hytrach na 'thrais domestig' a cheir diffiniad 'llawn' (gweler PD12J, paragraff 3).
- Amlinellir gofynion gorfodol (gweler PD12J, paragraffau 8, 14, 15, 18, 22 a 29).
- Caiff mesurau ychwanegol eu hyrwyddo i ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig er mwyn atal cyflawnwr heb gynrychiolaeth rhag croesholi'r unigolyn (gweler PD12J, paragraff 28), yn ogystal â threfniadau ymarferol i amddiffyn y dioddefwr-oroeswr pan fydd yn y llys (paragraff 10).

Caiff yr egwyddorion cyffredinol eu nodi ym mharagraffau 4-8; yn bennaf, mae paragraff 4 yn nodi:

> Domestic abuse is harmful to children, and/or puts children at risk of harm, whether they are subjected to domestic abuse, or witness one of their parents being violent or abusive to the other parent or live in a home in which domestic abuse is perpetrated (even if the child is too young to be conscious of the behaviour). Children may suffer direct physical, psychological and/or emotional harm from living with domestic abuse, and on top of this may suffer from impaired parental capacity of either or both of their parents where domestic abuse is present.

Mae Paragraff 5 yn mynd ymlaen i ddweud bod yn rhaid i'r llys, ar bob cam o'r achos, ystyried a gaiff cam-drin domestig ei godi fel mater ac, os felly, weithredu'n briodol drwy:

- nodi'r materion ffeithiol a'r materion lles perthnasol, gan ystyried natur unrhyw ddatgeliad, cyfaddefiad neu dystiolaeth o gam-drin domestig, ac i ba raddau y byddai'n debygol o fod yn berthnasol wrth benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn trefniadau plentyn ac, os felly, o dan ba amodau, gan roi cyfarwyddiadau fel y bo'n briodol,
- lle cyfaddefir i achos o gam-drin domestig neu lle caiff ei brofi, sicrhau bod unrhyw orchymyn trefniadau plentyn sydd ar waith yn amddiffyn diogelwch a llesiant y plentyn a'r rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef, ac nad yw'n gwneud y naill na'r llall yn agored i risg o niwed pellach;
- sicrhau mai dim ond ar ôl dilyn y canllawiau a nodir yn y cyfarwyddyd ymarfer y gwneir unrhyw orchymyn trefniadau plentyn interim a sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i drefniadau ar gyfer amser teulu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel i'r plentyn.

## Ffactorau Cam-drin Domestig i'w Hystyried

- Mae trais a cham-drin domestig yn bodoli ar sbectrwm a bydd gan bob achos nodweddion, dull ymarfer a chanlyniad gwahanol.
- Bydd yr effaith ar y plentyn yn amrywio yn unol â'r ffactorau gwydnwch ac adfyd sy'n bresennol, ac mae'n bosibl hefyd yr effeithir ar y gallu i fagu plant.
- Chwiliwch am ffactorau risg gwaethygol yn y wybodaeth a gasglwyd.
- Chwiliwch am ffactorau amddiffynnol a seiliedig ar gryfderau a fydd yn lleihau'r risg.
- A yw ymyriad ar gyfer y plentyn yn briodol?

# Canllawiau i Ymarferwyr: Cefnogi Rhieni yn Dilyn Gwrandawiad Canfod Ffeithiau Nas Profwyd

## Canllawiau'r Llywydd ar Wrandawiadau Canfod Ffeithiau

- Mae Cafcass Cymru yn cydnabod bod gwrandawiadau canfod ffeithiau yn chwarae rôl hanfodol o ran pennu o safbwynt cyfreithiol a oes achos o gam-drin domestig wedi digwydd yn ffeithiol ai peidio.
- Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw canlyniad gwrandawiad—p'un a wneir canfyddiadau ai peidio—yn dileu profiadau bywyd y rhai sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Mae'n rhaid i ymarferwyr Cafcass Cymru gydbwyso eu cyfrifoldeb i gynnal penderfyniad y llys ond gan barhau i weithio gan ddangos empathi a phroffesiynoldeb a chan ddilyn dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma.

[Fact-finding hearings and domestic abuse in Private Law children proceedings – Guidance for Judges and Magistrates – Y Farnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd]

Pan fydd llys yn dweud nad oes digon i brofi bod cam-drin domestig wedi digwydd, mae'n golygu nad oedd digon o dystiolaeth ac na chyflawnwyd y baich profi. Yng nghyd-destun cefnogi rhiant yn dilyn gwrandawiad canfod ffeithiau lle mae hyn wedi digwydd, mae'n gyffredin i bobl ddweud wrthym fod y gamdriniaeth wedi digwydd ond na chafodd ei phrofi i'r safon gyfreithiol ofynnol. Mae'n rhaid i ymarferwyr Cafcass Cymru gydbwyso eu cyfrifoldeb i gynnal penderfyniad y llys ond gan barhau i weithio gan ddangos empathi a phroffesiynoldeb a chan ddilyn dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma.

Bydd adegau pan fydd y llys yn gwneud canfyddiad(au) bod rhywun wedi dweud celwydd a gwneud datganiadau cam-drin ffug. Bydd angen i ymarferwyr Cafcass Cymru ystyried sut i weithio gyda phobl yn y cyd-destun hwn o hyd, er eu bod yn credu'n gryf bod canlyniad y llys yn anghywir.

## Cynnal Dull Gweithredu sy'n Ystyriol o Drawma

Hyd yn oed pan na fydd gwrandawiad canfod ffeithiau yn profi honiadau, mae'n bosibl y bydd y rhiant a wnaeth yr honiadau wedi profi cryn drallod, ofn neu niwed o hyd.

### Dylai ymarferwyr wneud y canlynol:

- Cydnabod nad yw diffyg canfyddiadau o reidrwydd yn golygu na ddigwyddodd yr achos o gam-drin ond, yn hytrach, na chyrhaeddwyd y trothwy cyfreithiol.
- Osgoi iaith neu weithredoedd sy'n diystyru neu'n bychanu teimladau a phrofiadau'r rhiant.
- Bod yn ymwybodol y gall achosion llys eu hunain achosi trawma pellach ac efallai y bydd angen amser a chymorth ar rieni i brosesu'r canlyniad.

### Gweithio gyda'r rhiant a ddatgelodd yr achos o gam-drin

- Dangoswch empathi a dilyswch emosiynau'r rhiant gan sicrhau bod yr unigolyn yn deall canfyddiadau'r llys.
- Atgyfnerthwch y caiff pryderon y rhiant ynghylch diogelwch – diogelwch y rhiant ac unrhyw blant – eu hystyried o ddifrif o hyd.
- Parhewch i asesu unrhyw ffactorau risg, gan gynnwys ymddygiadau ar ôl gwahanu a all effeithio ar les plant.
- Cynigiwch gyfeirio'r rhiant at wasanaethau cymorth a all ei helpu i brosesu canlyniad y llys a mynd ati i fagu plant ar y cyd yn ddiogel.

### Gweithio gyda'r rhiant a oedd yn destun datgeliadau

- Cydnabyddwch y gall deimlo'n ddig, yn rhwystredig neu'n ofidus ar ôl y gwrandawiad, yn enwedig os bydd o'r farn bod y broses yn annheg neu ei bod wedi effeithio ar berthynas y rhiant â'r plentyn.
- Anogwch y rhiant i ganolbwyntio ar anghenion a lles pennaf y plentyn, gan atgyfnerthu pwysigrwydd trefniadau magu plant ar y cyd sy'n gadarnhaol ac yn canolbwyntio ar y plentyn.
- Cadwch lygad am unrhyw ymddygiadau a all awgrymu bod gwrthdaro neu ymddygiad gorfodaethol yn parhau neu fod y rhieni yn ei chael hi'n anodd ailadeiladu'r ymddiriedaeth rhyngddynt.

### Blaenoriaethu diogelwch a llesiant plant

- Ni waeth beth fo canlyniad y gwrandawiad canfod ffeithiau, diogelwch a lles y plentyn fydd y brif ystyriaeth o hyd.
- Dylai ymarferwyr barhau'n effro i unrhyw bryderon newydd a sicrhau y cynhelir asesiadau diogelu parhaus lle bo angen.
- Dylid cefnogi rhieni i ymdrin â threfniadau cyswllt gan sicrhau bod lles pennaf y plentyn wrth wraidd y trefniadau a gan fod yn ystyriol o bryderon diogelwch unrhyw barti.

Mae ymarferwyr yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod yr holl bartïon yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu parchu a'u cefnogi, hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd a chymhleth. Bydd cynnal chwilfrydedd proffesiynol, cymhwyso ymarfer sy'n ystyriol o drawma a chanolbwyntio ar anghenion y plentyn yn helpu i ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn mewn ffordd sensitif a theg.

## Safbwyntiau'r Plentyn

- A ydych wedi cofnodi profiad bywyd y plentyn mewn perthynas â cham-drin domestig?
- Dylid cydbwyso dymuniadau a theimladau â lles emosiynol y plentyn dros amser wrth ystyried trefniadau plentyn ac amser teulu.
- Dylech gydbwyso safbwyntiau'r plentyn ag effaith a ffactorau amddiffynnol er mwyn pennu risg yn y dyfodol a'r posibilrwydd o roi trefniadau plentyn cynaliadwy ar waith.
- Ystyriwch hunaniaeth a chydbwyswch unrhyw risg o niwed rhwng cyswllt a dim cyswllt o ran yr effaith ar y plentyn dros amser. Myfyriwch ar sensitifrwydd diwylliannol eich asesiad.
- A ydych wedi ystyried cyd-destun diwylliannol ac anghenion hunaniaeth y plentyn? Mae diogelwch y plentyn yn hollbwysig ac felly sut gellir diwallu anghenion hunaniaeth y plentyn ond gan sicrhau diogelwch ar yr un pryd?
- Ar ddiwedd eich sesiwn gyda'r plentyn, treuliwch amser yn tawelu'r sgwrs gan drafod materion pob dydd arferol unwaith eto er mwyn lleihau unrhyw drallod.

# Cwestiynu Myfyriol sy'n Ystyriol o Gam-drin Domestig – Adroddiadau

## Ystyriwch a gofynnwch i chi eich hun

- Beth sy'n digwydd i'r plentyn?
- Beth mae'n ei weld ac yn ei glywed/beth mae wedi'i weld a'i glywed?
- Beth yw barn y plentyn? Dylid cydbwyso dymuniadau a theimladau â lles emosiynol y plentyn dros amser wrth ystyried amser teulu a threfniadau plentyn.
- Dylech gydbwyso safbwyntiau'r plentyn ag effaith a ffactorau amddiffynnol er mwyn pennu risg yn y dyfodol a'r posibilrwydd o roi trefniadau plentyn cynaliadwy ar waith.
- Ystyriwch hunaniaeth a chydbwyswch y risg o niwed rhwng treulio amser neu fathau eraill o gyswllt a dim cyswllt o ran yr effaith ar y plentyn dros amser – sut y gellir diwallu anghenion y plentyn ond gan sicrhau diogelwch ar yr un pryd?
- Efallai y byddwch yn penderfynu nad yw'n bosibl i'r plentyn dreulio amser wyneb yn wyneb gyda pharti, ond a ydych wedi ystyried opsiynau eraill er mwyn cadw cysylltiad yn ddiogel? Llythyrau, cardiau, pen-blwyddi, Nadolig ac ati, a sut y gellid rheoli hyn?
- Dywed aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc wrthym y gall cyswllt anuniongyrchol deimlo'n anniogel ac yn ymwthiol pan fyddant wedi dioddef cam-drin domestig. Fel gydag unrhyw orchymyn arall, mae angen i orchymyn ar gyfer cyswllt anuniongyrchol fod er lles pennaf y plentyn, felly mae'n bwysig ystyried pob ffactor, gan gynnwys dymuniadau a theimladau'r plant, effaith bosibl y cyswllt ei hun a'r posibilrwydd y gallai'r rhiant sy'n cam-drin ddefnyddio cyswllt anuniongyrchol i reoli'r rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr.

Ar ddiwedd eich sesiwn gyda'r plant, treuliwch amser yn tawelu'r sgwrs gan drafod materion pob dydd arferol unwaith eto er mwyn lleihau trallod.

- A oes unrhyw wybodaeth ffeithiol ar goll?
- A oes angen gwiriadau ychwanegol?
- A yw'r trefniadau presennol yn ddiogel?
- Pa asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r broses?
- A oes unrhyw orchmynion peidio ag ymyrryd neu aflonyddu ar waith?
- Dylech ystyried unrhyw gyhuddiadau, erlyniadau sydd yn yr arfaeth ac euogfarnau yn eich asesiad.

## Dechreuwch eich damcaniaeth

- A oes prif gyflawnwr?
- Chwiliwch am fylchau yn y wybodaeth.
- Cynlluniwch eich cyfweliadau yn ddiogel ac yn ofalus.
- Diweddarwch y cynllun achos wrth i'r achos ddatblygu.
- A oes rheolaeth drwy orfodaeth yn bresennol? Ystyriwch yr effaith ar y plentyn.

## Strwythurwch Eich Dadansoddiad

- Crynhowch natur, hyd ac amlder y cam-drin domestig.
- Cyfeiriwch at yr adnoddau rydych wedi'u defnyddio a disgrifiwch beth maent wedi'i ddweud wrthych mewn perthynas â'r cam-drin domestig.
- Os nodwyd ymddygiadau angheuol, byddwch yn glir o ran sut rydych wedi asesu'r rhain yng nghyd-destun risg barhaus.
- Os na allwch argymell bod plentyn yn treulio amser gyda rhiant, pa ymyriadau allai wneud hyn yn ddiogel yn y dyfodol?
- Beth yw'r risg benodol i'r partner a'r plentyn/plant?
- Cydbwyswch y risg yn erbyn y ffactorau amddiffynnol a gwydnwch.
- Beth yw'r risg sy'n weddill yng nghyd-destun y cais a'r trefniadau ar gyfer y plentyn?
- Beth yw'r rhesymau dros eich argymhellion?

